Mae aelodau consortiwm Datblygu Cymru gofalgar (DACW) yn bryderus ynghylch risg dichonol y teulu fentanyl o opioidau synthetig.

Mae posib i Fentanyls, sy'n cynnwys y cyfansoddion fentanyl, carfentanyl, 3-methylfentonyl, thiofentanyl, 3-methylthiofentanyl, beta-hydroxyfentanyl ac acetylfentanyl fod yn risg sylweddol i bobl fregus ledled Cymru.

Mae'r consortiwm, sy'n gyfuniad o asiantaethau sector gwirfoddol adnabyddus o bob cwr o'r wlad, wedi cytuno ar chwe blaenoriaeth er mwyn rhoi'r gorau i'r defnydd o'r sylweddau hyn, sy'n llawer cryfach na heroin.

Nid ydyw'n sylwedd cyffredin ar hyn o bryd

Bu i ystadegau swyddogol gofnodi un farwolaeth yn gysylltiedig gyda fentanyls y llynedd. Hefyd yn dilyn achos llys amlwg yng Nghaerdydd cafodd y cyhuddedig ei farnu'n euog am gyhuddiadau cyflenwi rhyngwladol. Dengys tystiolaeth na chaiff y cyffuriau hyn eu treiddio llawer ar draws Cymru ar hyn o bryd.

Dim ond un sampl o gyffuriau yng Nghymru wedi ei ddadansoddi gan gynllun profi WEDINOS sydd wedi dangos olion o fentanyls (Caerdydd, Medi 2014).

Tystiolaeth anecdotaidd

Er hynny, bu i aelodau DACW dderbyn nifer o adroddiadau o lygad y ffynnon ynghylch y defnydd o ac effeithiau fentanyls. Caiff fentanyls eu torri gyda sylweddau eraill, felly dydy'r defnyddwyr ddim yn ymwybodol o gryfder a chyfansoddiad y cyffur maen nhw'n ei gymryd.

Dywedodd un defnyddiwr heroin cyson o Abertawe wrth ei weithiwr lleihau niwed y bu'n anymwybodol wedi iddo snwffian rhywfaint o bowdr gwyn "maint pen pin". Roedd yn anymwybodol am gyfnod a dywedodd nad oedd yn bwriadu defnyddio beth roedd o'n ei gredu oedd fentanyl eto.

Effaith Rhyngwladol

Mae cost ddynol y defnydd o fentanyl yn dod yn fwyfwy amlwg ar draws yr Unol Daleithiau, Canada ac ardaloedd yn Lloegr. Ym mis Awst, bu i'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol ddweud y bu o leiaf 60 marwolaeth oherwydd cyffuriau ym Mhrydain yn berthnasol i ddefnydd o fentanyl yn ystod yr wyth mis diwethaf.

Ein hymateb

Fel ymateb i hyn, bydd aelodau DACW yn:

- Parhau i fod yn wyliadwrus ynghylch y defnydd o fentanyls yng nghymunedau Cymru ac argymell fod pob asiantaeth yn derbyn stribedi profi er mwyn adnabod y defnydd o'r cyffuriau a dybir yn lleol
- Galw am gynllun prawf ar gyfer y cartref er mwyn profi am fentanyl mewn wrin, gyda hyfforddiant a chefnogaeth i ddefnyddwyr mewn risg o ddod ar draws fentanyls
- Gofalu caiff samplau cyffuriau eu hanfon yn rheolaidd at WEDINOS i'w profi ac annog lluoedd yr Heddlu, gwasanaethau iechyd a phartneriaid eraill i wneud yr un peth
- Hyfforddi holl aelodau'r rheng flaen ynghylch ymwybyddiaeth o fentanyl a sylweddau seicoweithredol newydd
- Argymell parhau gydag ac ymestyn y rhaglen naloxone (wedi ei gefnogi gan ymchwil academaidd) i gynnig cyngor arbenigol i ddefnyddwyr sydd mewn peryg o ddod ar draws fentanyls
- Cefnogi pobl i fanteisio ar driniaeth amnewidion effeithiol a chefnogi mentrau i ofalu nad oes yna restri aros am driniaethau cyffuriau yng Nghymru

Mae DACW hefyd yn croesawu gwaith y Panel Cynghori Annibynnol ar Gamddefnyddio Sylweddau a'r Uwch Grŵp Lleihau Niwed i adolygu tystiolaeth ynghylch cyfleusterau pigiadau mwy diogel.

*Mae **Datblygu Cymru gofalgar (DACW)** cynnig llawer o wasanaethau gwahanol i bobl sydd wedi'i heffeithio gan broblemau camddefnyddio alcohol a chyffuriau ac iechyd meddwl. Mae'r aelodau yn cynnwys: CAIS, Drugaid, Hafal, Kaleidoscope, NewLink Wales, TEDS a WCADA.*